


# Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin

## Adolygiad o'r Dystiolaeth



**Chwefror 2018**

## **Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin**

### **Adolygiad o'r Dystiolaeth.**

Lluniwyd y rhestr ganlynol o ddogfennau a thystiolaeth o'r rheiny a gyflwynwyd at ddibenion Archwilio fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol. Nid yw'r cynnwys yn gynhwysfawr, ac ni fwriedir iddo fod yn ddiamod. Yn hytrach, y bwriad yw llywio'r hyn a ystyrir o ran dystiolaeth wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig.

Mae'r dogfennau a restrir isod i'w gweld ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen ganlynol:

[http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/3815/submission\\_documents\\_mk2.pdf](http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/3815/submission_documents_mk2.pdf)

Cofiwch y gallai'r canlynol gael ei newid a'i ddatblygu ymhellach wrth i'r broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig fynd rhagddi.

<b>Cyfeirnod y Ddogfen</b>	<b>Teitl y Ddogfen</b>	<b>Sylwadau</b>
CSD45	Methodoleg Asesu Safleoedd	Mae Methodoleg Asesu Safleoedd ddiwygiedig wedi cael ei pharatoi i lywio a helpu cynigwyr a datblygwyr o ran yr ystyriaethau a'r gofynion sy'n ategu'r broses o ddethol safleoedd yn y CDLI Diwygiedig. Bydd y fethodoleg hon yn cael ei datblygu ymhellach drwy gydol y broses o lunio'r Cynllun.
CSD46	Arfarniad Cynaliadwyedd: Canllaw i Hyrwyddwyr Safleoedd Datblygu: Yr hyn i'w gyflwyno i'r Cyngor	Llunnir canllawiau ategol i sicrhau bod datblygwyr a chynigwyr safleoedd yn cael y wybodaeth briodol am ofynion y dyfodol mewn perthynas â Gwerthuso Cynaliadwyedd ynghylch eu cyflwyniadau/sylwadau.
CSD63	Papurau Trafod (Mehffin 2008)	Rhoddir ystyriaeth i agweddau thematig penodol ar y Cynllun, gan roi sylw i faterion tystiolaethol ychwanegol fel sy'n ofynnol.
CSD64	Papur Demograffeg (2008)	Gweler Papur Pwnc 2 - Rhagamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd isod a chyfeiriadau tystiolaethol eraill i ddeall gofynion twf yn y dyfodol.
CSD75	Papur Pwnc 1 - Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Diwygiedig 2011	Tystiolaeth i'w pharatoi i adlewyrchu ail-werthuso'r Materion Allweddol a Lleol yn ogystal â nodi Strategaeth y CDLI a'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol.
CSD76	Papur Pwnc 2 ~ Poblogaeth a Thai, Diwygiwyd Mehffin 2011	Rhoddir ystyriaeth i ddatblygu'r papur er mwyn ystyried ymhellach faterion sy'n deillio o'r gwaith tystiolaethol ar ragamcanion poblogaeth ac aelwydydd.
CSD77	Papur Pwnc 3 - Dewisiadau Gofodol Strategol a Hierarchaeth Aneddiadau	Rhoddir ystyriaeth i adolygu'r papur i adlewyrchu'r strategaeth newydd a'r dystiolaeth ategol.
CSD78	Papur Pwnc 4 ~ Papur Pwnc Tai Fforddiadwy - Y Fersiwn Adneuol o'r Cynllun Datblygu Lleol	Rhoddir ystyriaeth i adolygu'r papur i adlewyrchu'r strategaeth newydd a'r dystiolaeth ategol.
CSD79	Papur Pwnc 5 - Datblygu Cynaliadwy a Newid yn yr Hinsawdd	Rhoddir ystyriaeth i adolygu'r papur i adlewyrchu'r strategaeth newydd a'r dystiolaeth ategol.

CSD80	Papur Pwnc 6 ~ Gwastraff	Rhoddir ystyriaeth i'r angen i adolygu'r papur i adlewyrchu'r strategaeth newydd a thystiolaeth ategol.
CSD81	Papur Pwnc 7 ~ Mwynau	Rhoddir ystyriaeth i'r angen i adolygu'r papur i adlewyrchu'r strategaeth newydd, y polisi cenedlaethol a'r dystiolaeth ategol.
CSD82	Papur Pwnc 8 ~ Cludiant	Rhoddir ystyriaeth i'r angen i adolygu'r papur i adlewyrchu'r strategaeth newydd a'r dystiolaeth ategol gan gynnwys cynlluniau a strategaethau eraill.
CSD83	Papur Pwnc 9 ~ Terfynau Datblygu	Rhoddir ystyriaeth i'r angen i adolygu'r papur i adlewyrchu'r strategaeth newydd a thystiolaeth ategol.
CSD84	Papur Pwnc 10 ~ Dosbarthiad Twf Tai	Rhoddir ystyriaeth i'r angen i adolygu'r papur i adlewyrchu'r strategaeth newydd a thystiolaeth ategol.
CSD85	Papur Pwnc 11 ~ Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr	Bydd yr angen am y papur yn cael ei werthuso yng ngoleuni tystiolaeth arall gan gynnwys yr Asesiad o Anghenion y Sipsiwn a Theithwyr.
CSD86	Papur Pwnc 12 ~ Hap-safleoedd a Safleoedd Bychain	Bydd y cynnwys a'r angen am y papur hwn yn cael eu gwerthuso yng ngoleuni tystiolaeth arall, gan gynnwys tystiolaeth yn ymwneud â'r gofynion o ran twf tai a dosbarthiad gofodol twf.
CSD87 P1	Papur Pwnc 13 ~ Yr Iaith Gymraeg	Adolygir cynnwys y papur ac unrhyw dystiolaeth bellach.
CSD88	Papur Pwnc 14 ~ Datblygu Fesul Cam a Dosbarthiad Tai	Papur neu dystiolaeth bellach i'w datblygu i ystyried y disgwyliadau o ran amseru a chwblhau'r safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI diwygiedig.
CSD89	CDLI - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - Ardal Dwf 2: Llanelli, Porth Tywyn a Phen-bre - Asesiad o Effeithiau Posibl ar Rwydwaith y Safle Ewropeaidd (JACOBS Awst 2013)	Y ddogfen i aros fel tystiolaeth gefndir o ran llywio dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â Moryd Byrri. Lle bo'n briodol, bydd y ddogfen yn cael ei diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau ar ôl mabwysiadu'r CDLI.
CSD90	Ystyried Dŵr Arwyneb wrth Asesu Ceisiadau Cynllunio – Dalgylch Gwaith Trin Carthion Llanelli	Y ddogfen i aros fel tystiolaeth gefndir o ran llywio dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â Moryd Byrri. Lle bo'n briodol, bydd y ddogfen yn cael ei diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau ar ôl mabwysiadu'r CDLI.
CSD91	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Moryd Byrri (Medi 2011)	Y ddogfen i aros fel tystiolaeth gefndir o ran llywio dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â Moryd Byrri. Rhoddir ystyriaeth i ddiweddarau ei chynnwys.

CSD93	Gwaredu Dŵr Arwyneb: System Garthffosiaeth Bresennol Llanelli – y potensial i waredu dŵr arwyneb - Grŵp Technegol Llifogydd Llanelli (2010)	Y ddogfen i aros fel tystiolaeth gefndir o ran llywio dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â Moryd Byrri.
CSD94	Gwaredu Dŵr Arwyneb : Canol Tref Llanelli – Ymchwiliad i Gapasiti'r Carthffosydd o ran Dŵr Arwyneb Waterman (2011)	Y ddogfen i aros fel tystiolaeth gefndir o ran llywio dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â Moryd Byrri. Bydd rhagor o dystiolaeth yn cael ei hystyried lle bo'r angen.
CSD95	Aber afon Llwhchr: Asesiad Ansawdd Dŵr a Maeth: METOC (2009)	Y ddogfen i aros fel tystiolaeth gefndir o ran llywio dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â Moryd Byrri. Bydd rhagor o dystiolaeth yn cael ei hystyried lle bo'r angen.
CSD96	Ymchwiliad i Farwolaethau Cocos Moryd Byrri, 2009–2011 (2012)	Y ddogfen i aros fel tystiolaeth gefndir o ran llywio dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â Moryd Byrri. Bydd rhagor o dystiolaeth yn cael ei hystyried lle bo'r angen.
CSD97	Ardaloedd Tirwedd Arbennig (2011)	Yn destun ail-werthuso pellach ac adolygiad polisi o ran clustnodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y CDLI diwygiedig.
CSD99	Asesiad Bioamrywiaeth Aneddiadau Sir Gaerfyrddin (2011)	Ffynhonnell fuddiol o wybodaeth a thystiolaeth. Fodd bynnag, bydd y potensial o ran unrhyw ddiweddariad yn y dyfodol yn cael ei ystyried ymhellach.
CSD102	Caeau Mynydd Mawr – Arolwg o Ansawdd Cynefin ar gyfer Britheg y Gors (2009)	
CSD104	Cysylltedd Britheg y Gors	Bydd y gofynion (yn cynnwys rhai tystiolaethol) mewn perthynas â Chaeau Mynydd Mawr yn cael eu hystyried ymhellach wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig. Ystyrir yr amcanion cadwraeth diwygiedig mewn perthynas ag ardal cadwraeth arbennig Caeau Mynydd Mawr a'r angen i sicrhau bod y CDLI Diwygiedig yn cydymffurfio â gofynion yr Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd.
CSD106	Diffinio'r ardal i'w chynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol – Tystiolaeth Ategol ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol (2012)	
CSD107	Manyleb Rheoli Cynefinoedd Arfaethedig – Caeau Mynydd Mawr	
CSD108	Gwybodaeth ategol/tystiolaeth cyfradd dalu (Drafft/dogfen sydd ar y gweill), Tystiolaeth Ategol ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol (2013)	
CSD109	Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ~ Cam 1 ~ Rhan 1 (2011)	Bydd tystiolaeth a gwybodaeth mewn perthynas â Pherygl Llifogydd yn elfen bwysig wrth baratoi'r CDLI diwygiedig ac wrth ddethol safleoedd. Ystyrir y mapiau perygl

CSD112	Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd – Atodiad 1 – Y Perygl o Llifogydd a'r Dyraniadau Defnydd Tir Arfaethedig (Diwygiwyd ym mis Awst 2013)	llifogydd a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a darpariaethau Nodyn Cyngor Technegol 15 a'r Mapiau Cyngor Datblygu. Gellir datblygu rhagor o dystiolaeth gan gynnwys drwy gydweithio rhanbarthol fel y bo'n briodol.
CSD113	Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd – Atodiad 2 Dŵr Arwyneb a Llifogydd Lleol (2013)	Bydd gwybodaeth mewn perthynas â Dŵr Arwyneb a Llifogydd Lleol yn elfen wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig ac wrth nodi a dethol safleoedd. Gellir datblygu rhagor o dystiolaeth fel y bo'n briodol.
CSD115	Llifogydd yng Ngorllewin Caerfyrddin – Astudiaeth Pen Desg: Rhagfyr 2011	Asesir y gofynion am dystiolaeth ar faterion safle-benodol wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun fynd rhagddi, ac yn amodol ar nodi safleoedd fel rhan o'r CDLI diwygiedig.
CSD117 CSD120	Astudiaeth ynghylch Tir Cyflogaeth Sir Gaerfyrddin 2010 Papur Diweddaru ynghylch Tir Cyflogaeth – Mehefin 2013	Gweler Papur Diweddaru ynghylch Tir Cyflogaeth 2013 isod. Cynhelir adolygiad blynyddol o'r cyflenwad tir cyflogaeth fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLI mabwysiedig.
CSD121	Rhagamcanion ynghylch y Boblogaeth ac Aelwydydd – Ardaloedd Rhwydweithiau Cymunedol (2010)	Bydd tystiolaeth yn cael ei pharatoi i ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth o ragamcanion poblogaeth ac aelwydydd. Mae hyn yn unol â darpariaethau paragraff 9.2.2 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9) a'r angen i gael dealltwriaeth glir o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ofynion tai ar gyfer yr ardal dros gyfnod y cynllun.
CSD122	Asesiad Gwyrddfannau - Crynodeb (2010)	Ffynhonnell fuddiol o wybodaeth, fodd bynnag mae'n bosibl y rhoir ystyriaeth i ddiweddaru pellach a dilysu ei gynnwys.
CSD123	Astudiaeth Capasiti Trefol (2011)	Rhoddir ystyriaeth i'r angen i edrych eilwaith ar y ddogfen.
CSD124	Briff Cynllunio a Datblygu Gorllewin Caerfyrddin	Asesir y gofynion am dystiolaeth, neu ddiweddariadau i dystiolaeth ar faterion safle-benodol wrth i'r broses o baratoi'r CDLI ddiwygiedig fynd rhagddi. Rhoddir rhagor o ystyriaeth yn amodol ar glustnodi safleoedd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

CSD125	Ardal Gogledd Llandeilo - Briff Cynllunio a Datblygu	Asesir y gofynion am dystiolaeth, neu ddiweddariadau i dystiolaeth ar faterion safle-benodol wrth i'r broses o baratoi'r CDLI ddiwygiedig fynd rhagddi. Rhoddir rhagor o ystyriaeth yn amodol ar glustnodi safleoedd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.
CSD126-P1	De Morlan Elli / Prif Gynllun: Gorffennaf 2011 – Rhan 1	Asesir y gofynion am dystiolaeth, neu ddiweddariadau i dystiolaeth ar faterion safle-benodol wrth i'r broses o baratoi'r CDLI fynd rhagddi. Rhoddir rhagor o ystyriaeth yn amodol ar glustnodi safleoedd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.
CSD128	Adroddiad Terfynol Astudiaeth Adwerthu, Sir Gaerfyrddin (2009)	Dylid cyfeirio at ddiweddariad 2015 o Astudiaeth Adwerthu Sir Gaerfyrddin.
CSD130	Papur Cefndir ynghylch Seilwaith (2013)	Cyfeirir at y gwaith parhaus mewn perthynas â deall argaeledd seilwaith, yn cynnwys yr hyn a wneir wrth baratoi atodlen codi tâl arfaethedig yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd materion cysylltiedig ag argaeledd, neu fel arall, seilwaith yn destun ystyriaeth barhaus.
CSD131	Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2012	Dylid cyfeirio at ofynion Nodyn Cyngor Technegol 1 i gynhyrchu Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Cyfeirir at yr astudiaethau blynyddol a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
CSD132	Adroddiad Diweddarau Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy: Mai 2013	Paratwir tystiolaeth ddiwygiedig i ategu polisïau'r CDLI mewn perthynas â gofynion Tai Fforddiadwy.
CSD133	Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ~ Adolygiad Blynyddol 2009	Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Tai mewn perthynas ag Asesu'r Farchnad Dai Leol yn y dyfodol, gan gynnwys drwy gydweithio rhanbarthol lle y bo'n briodol.
CSD151	Harbwr Porth Tywyn – Briff Datblygu	Asesir y gofynion am dystiolaeth, neu ddiweddariadau i dystiolaeth ar faterion safle-benodol wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun fynd rhagddi, ac yn amodol ar nodi safleoedd fel rhan o'r CDLI diwygiedig.